COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU A'R PRIF GWNSTABL

HEDDLU DE CYMRU

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON

2021-22

DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL I COMISIYNYDD

CYFLWYNIAD

Mae Datganiad Cryno o Gyfrifon 2021-22 yn nodi prif weithgarwch refeniw a chyfalaf y flwyddyn ar gyfer Heddlu De Cymru. Nid yw'r gwariant refeniw yn cynnwys trafodiadau penodol sy'n ymwneud â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), er mwyn symleiddio'r broses o gyflwyno'r cyfrifon. Nid yw'r trafodiadau hyn yn effeithio ar y trosglwyddiad i Gronfa'r Heddlu.

Y CYFRIF REFENIW

Cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £327.9m ar gyfer 2021-22 ym mis Chwefror 2021 i ariannu ymrwymiadau presennol o ran gwariant a blaenoriaethau'r Heddlu a nodwyd.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Balans Cronfa'r Heddlu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £10.3m sydd islaw'r lefel darged, sef £12.3m (3% o'r Gwariant Refeniw Gros). Fodd bynnag, roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.248m o gymharu â 2020-21 o ganlyniad i danwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn. Cedwir £37.6m mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion refeniw a chyfalaf penodol.

CYLLID CYFALAF A BENTHYCA

Y gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod oedd £30.2m a chafodd ei ariannu drwy fenthyciadau, cyfraniadau refeniw, derbyniadau cyfalaf a grantiau penodol. Gwariant cyfalaf yw arian a gaiff ei wario gan Heddlu De Cymru er mwyn prynu, uwchraddio a gwella asedau megis eiddo, cerbydau a TGCh. Y gwahaniaeth rhyngddo a gwariant refeniw yw bod Heddlu De Cymru yn cael y budd o wariant cyfalaf ar asedau dros fwy na blwyddyn.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r amgylchedd rheoli mewnol, yn gwneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd ac yn nodi materion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar 'Delivering Good Governance' i Gyrff Plismona gan CIPFA ym mis Gorffennaf 2016, sydd wedi'u hategu gan ganllawiau CIPFA ar 'Application of the Good Governance Framework 2020-21', a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, mewn ymateb i effaith barhaus pandemig y Coronafeirws ar drefniadau llywodraethu. Mae'r Cyd-Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau hyn.

Gellir dod o hyd i'r Datganiad o Gyfrifon cyhoeddedig llawn a barn Archwilydd Cyffredinol Archwilio Cymru ar y gwefannau canlynol:-

- **Comisynydd yr Heddlu a Throseddu**

  Cyllid (southwalescommissioner.org.uk)

- **Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**

  Datganiad Cyfrifon Blynyddol | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk)

AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2021-22

GWARIANT REFENIW



Dengys yr uchod fod cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer Swyddogion a Staff yr Heddlu (£296.37m) yn cyfrif am 75% o'r gwariant gros, sef £394.6m. Mae enghreifftiau o wariant o fewn y £62.66m ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau a chostau eraill yn cynnwys Cyfathrebu a Chyfrifiadura (£11.6m), Taliadau i Heddluoedd Eraill (£7.8m), Taliadau Eraill i Drydydd Partïon (17.3m) a Chostau Ymchwiliol a Gweithredol (£5.9m). Hefyd, gwariwyd £15.43m i dalu costau cyllid cyfalaf sy'n cynnwys llog a dalwyd ar fenthyciadau, swm a neilltuwyd i ad-dalu'r prif swm a chyfraniad refeniw i gyllid cyfalaf.

Dangosir cost plismona yn Ne Cymru a'r cyllid ar gyfer 2021-22 a'r flwyddyn flaenorol isod (a gyflawnir at ddibenion monitro):

	2021-22 £m	2020-21 £m
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu	160.4	154.2
Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu	64.0	61.1
Cyllidebau Datganoledig	12.7	9.5
Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau wrth Gefn	28.4	28.0
Cyllidebau Canoledig	14.1	12.8
Cyllidebau a Ariennir yn Allanol	35.8	26.5
Cyllidebau Cydweithredol	47.1	43.8
Cyllidebau Canolog	18.1	24.8
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	13.7	12.9
Gwariant Gros	**394.3**	**373.6**
Llai Grantiau ac Incwm	(66.4)	(65.0)
Gwariant Net	**327.9**	**308.6**

Dengys y tabl isod sut yr ariannwyd Heddlu De Cymru yn y flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

	2021-22 £m	2020-21 £m
Incwm o'r Dreth Gyngor	(144.3)	(135.9)
Incwm o Ardrethi Annomestig (Llywodraeth Cymru)	(23.3)	(21.9)
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru)	(52.7)	(53.9)
Grant yr Heddlu (y Swyddfa Gartref)	(107.6)	(96.9)
Cyfanswm Cyllid	**(327.9)**	**(308.6)**

AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2020-21

GWARIANT CYFALAF



Ariannwyd y gwariant cyfalaf o'r ffynonellau canlynol:

Sources of Funding	£m
Home Office Grant	0.26
Revenue Contributions	7.11
Other Grants and Contributions	0.15
Use of Capital Reserves	4.93
Capital Receipts	0.65
Borrowing	17.12
Total Funding	**30.22**

Mae'r gwariant cyfalaf yn cynnwys rhagor o gynnydd tuag at gwblhau Canolfan Dysgu a Datblygu'r Heddlu ym Mhencadlys yr Heddlu, rhaglen adnewyddu cerbydau a galluogrwydd symudol ychwanegol ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni 'uchelgais y Person Cywir, yn y Lle Cywir, ar yr Adeg Gywir'.

Y FANTOLEN

Mae'r tabl isod yn crynhoi mantolen yr hyn y mae Heddlu De Cymru yn 'berchen arno' a'r hyn 'sy'n ddyledus ganddo' i eraill:

	2021-22 £m	2020-21 £m
Asedau Diriaethol (Eiddo, Cerbydau, Systemau Cyfrifiadurol a Chyfarpar)	193.8	172.4
Asedau Anniriaethol (Meddalwedd Gyfrifiadurol)	2.1	1.7
Stociau	1.9	1.4
Dyledwyr (Arian sy'n Ddyledus i Heddlu De Cymru)	43.0	36.2
Credydwyr (Arian sy'n Ddyledus gan Heddlu De Cymru)	(42.7)	(34.9)
Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod	35.5	32.0
Darpariaethau	(3.6)	(3.8)
Benthyciadau Hirdymor	(32.6)	(23.8)
Llai Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy	(149.4)	(145.3)
Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau	**48.0**	**35.9**
Ariennir gan:		
Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy	(48.0)	(35.9)
	(48.0)	**(35.9)**

Mae Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy yn dal addasiadau technegol i'r cyfrifon, gan gynnwys addasiadau a wneir i asedau ar gyfer dibrisiant ac ailbrisiadau, ac nid ydynt yn gronfeydd wrth gefn a gefnogir gan arian parod.

BUDDSODDI A BENTHYCA

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan Heddlu De Cymru werth £38m o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod wedi'i ddal naill ai mewn Cyfrifon Galw neu Gronfeydd Marchnadoedd Ariannol.

Ar yr un dyddiad adrodd, roedd gwerth £34m o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i'w had-dalu o hyd fel y dangosir isod (ystyrir bod £1.2m yn fenthyciad byrdymor) a oedd yn cynnwys benthyciad newydd o £10m a gymerwyd yn ystod y flwyddyn :-



Felly, sefyllfa gyffredinol y trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd gwerth £4m o fuddsoddiadau net.

EFFEITHLONRWYDD AC EFFEITHIOLRWYDD

O ganlyniad i'r ffaith nad yw cyllid grant canolog gan y Swyddfa Gartref yn cyd-fynd â chostau cynyddol a galwadau newidiol, bu'n rhaid gweithredu mesurau ariannol llym i fynd i'r afael â'r diffygion yn y gyllideb a datblygwyd Cynllun Gwerth am Arian cynhwysfawr sydd wedi sicrhau £56m o arian parod. rhyddhau arbedion hyd yma yn y meysydd canlynol:-



Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiweddaraf 2026, sy'n seiliedig ar adolygiad tair blynedd o wariant y Llywodraeth, yn rhagweld bwlch ychwanegol yn y gyllideb dros y pedair blynedd nesaf o £10m, a thargedwyd £4.6m o arbedion yn ei erbyn yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

CYFLAWNIADAU'R HEDDLU CYFAN YN 2021-22

Y Sefyllfa Alldro Derfynol

Yr Alldro Refeniw ar gyfer 2021-22 yn erbyn cyllideb refeniw net o £328m oedd tanwariant o £176k. Alldro'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021-22 oedd tanwariant o £0.02m. Cafodd y Datganiad Drafft o Gyfrifon a'r Datganiad Terfynol o Gyfrifon eu llunio a'u cyhoeddi yn unol â'r terfynau amser statudol yng Nghymru, sef 31 Mai. Fodd bynnag, oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau, cynhaliwyd archwiliad estynedig a llofnodwyd y Datganiad o Gyfrifon Terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 29 Medi pan dderbyniwyd Barn Archwilio ddiamod.

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

Atebwyd 71.5% o alwadau 999 o fewn 10 eiliad, sydd islaw'r targed cenedlaethol. Yn gyffredinol, atebwyd 97.3% o alwadau 999. Atebwyd 78.9% o alwadau nad oeddent yn rhai brys.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Mae Heddlu De Cymru wedi bod yn gweithio i wella hyder dioddefwyr troseddau casineb i roi gwybod am achosion, a chofnodwyd cynnydd o 26% yn nifer y troseddau casineb yn 2021-22 gyda 2,671 o droseddau casineb, o gymharu â 2,119 yn 2020-21.

Ansawdd y Gwasanaeth

Yn ystod 2021-22, cofnodwyd 93.3% o'r troseddau y rhoddwyd gwybod i Heddlu De Cymru amdanynt o fewn 24 awr. Cofnododd Heddlu De Cymru gyfradd canlyniadau cadarnhaol o 15.9% ar gyfer troseddu'n gyffredinol yn 2021-22, o gymharu â 22.4% yn 2020-21. Cofnododd Heddlu De Cymru leihad o 8% yn nifer y bwrgleriaethau yn 2021-22 gyda 4,318 o droseddau, o gymharu â 4,690 yn 2020-21.

Troseddau a Gofnodwyd

Oherwydd y cyfyngiadau cenedlaethol ar symudiadau'r cyhoedd a rheolau ynysu, roedd blwyddyn ariannol 2020-21 yn anarferol am i nifer y troseddau leihau o un mis i'r llall. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, mae'r graff isod yn dangos bod lefelau troseddau misol wedi dechrau cynyddu ond nid i'r un lefelau a welwyd cyn COVID-19.



Cyfradd Canlyniadau Cadarnhaol yn ôl Grŵp Trosedd a Grŵp SYG

Mae'r siart hwn yn dangos perfformiad cymharol o ran cyfraddau canlyniadau cadarnhaol rhwng 2020-21 a 2021-22 gan ddefnyddio grwpiau troseddau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n braf nodi'r gwelliant sylweddol sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â gweithgarwch meddiannu a masnachu cyffuriau ledled ardal yr heddlu. O safbwynt canlyniadau ym maes Lladdiadau, mae'r rhain yn tueddu i fod yn ymchwiliadau ac erlyniadau cymhleth sy'n aml yn rhychwantu blynyddoedd ariannol.